

GWAHODDIAD

Mae'n bosib fod nifer ohonoch ymhlith ffyddloniaid y capel sydd heb dderbyn gwahoddiad i fod yn aelod yn ein plith. Os ydych yn un o'r rhain, fe hoffem eich gwahodd i ystyried dod yn aelod.

Beth yw goblygiadau bod yn aelod?

Golyga hyn eich bod yn fwy nag ymwelydd gwerthfawr ac yn fwy na chwsmwr da. Yn y traddodiad Cymreig, mae dod yn aelod yn golygu eich bod yn rhan o'r teulu ac yn achos y Tabernacl byddech yn aelod o'r cwmni gyda llais ymhob peth sy'n digwydd. (Mae'r capel yn gwmni elusennol cyfyngedig).

Nid oes disgwyl i chi fod yn bresennol 52 o Suliau'r flwyddyn na gwisgo het na siwt na bod yn berffaith i fod yn aelod..... does dim angen i chi gredu dwli chwaith.

Mae natur yr eglwys yn golygu ein bod yn gweld ein hunain fel criw sydd ar daith gyda'n gilydd, heb honni ein bod "wedi cyrraedd".

Byddai bod yn aelod yn ddatganiad eich bod am fod ar y daith gyda ni, ac yn barod i ymrwmo i ddatblygu cymuned a chyfraniad y Tabernacl.

Yn ei hanfod, credwn yng ngwerthoedd Iesu Grist, a gwelwn yn ei neges ffordd i ni, a'n teuluoedd i brofi bywydau llesol a chreadigol.

Eich dewis chi.....

Mae gwahoddiad cynnes i chi i ymuno â ni er mwyn ychwanegu at ein gallu i helpu'n gilydd, ac i gyfrannu'n llesol i'r gymuned ehangach, yn lleol a thu hwnt.

Mae croeso i chi holi am sut i ddod yn aelod o'r capel. Os nad ydych eto wedi dod i nabod pobl, holwch un o staff yr Ysgol Sul all eich pwyntio i'r cyfeiriad iawn, neu ffoniwch Eirian Rees ar 01443 202873 neu'r Ysgrifennydd, Gwilym Huws ar 07710 237327 neu ebostiwch capelytabernacl@gmail.com neu ddanfonwch neges breifat trwy Facebook Tabernacl Efail Isaf. Daw rhywun nôl atoch.

Edrychwn ymlaen at groesawu aelodau newydd yn gynnar yn 2019.